OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 3254

# Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2005

## RHAN III

RHEOLAETHAU SWYDDOGOL AR FWYD ANIFEILIAID A BWYD O DRYDYDD GWLEDYDD NAD YDYNT YN DOD O ANIFEILIAID

**Y terfyn amser ar gyfer erlyniadau (mewnforion)**

**40.** Ni chaniateir cychwyn unrhyw erlyniad am dramgwydd o dan y Darpariaethau Mewnforio, a hwnnw'n dramgwydd y gellir ei gosbi o dan reoliad 39(2), ar ôl i'r naill neu'r llall o'r cyfnodau canlynol ddod i ben—

(a) tair blynedd o ddyddiad cyflawni'r tramgwydd; neu

(b) blwyddyn o ddyddiad ei ddarganfod gan yr erlynydd,

p'un bynnag yw'r cynharaf.